

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Resilience Health, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 09 Mehefin 2026

Dyddiad cyhoeddi: 09 Medi 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-280-1

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.


Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
Ansawdd Profiad y Claf	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	18
4. Y camau nesaf.....	20
Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
Atodiad C – Cynllun gwella	23



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Resilience Health ar 9 Mehefin 2026. Gwasanaeth hollol rithwir yw Resilience Health. Cyfarfu AGIC â'r rheolwr cofrestredig ac edrych ar gofnodion cleifion, polisïau, gweithdrefnau a dogfennaeth arall drwy borth electronig y lleoliad. Gan nad oes cleifion yn ymweld â'r gwasanaeth yn gorfforol, ni wnaeth AGIC arolygu safle'r staff.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o un holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad. Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y gwasanaeth yn dangos dull cadarnhaol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gefnogi cleifion drwy fodel ymgynghori rhithwir. Roedd y cleifion yn cael cyngor ar hybu iechyd wedi'i deilwra yn ystod ymgynghoriadau, gyda gwybodaeth wedi'i haddasu i'w cefndir diwylliannol, gan gyflwyno anghenion ac amgylchiadau unigol. Roedd y gwasanaeth hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael drwy ei wefan a'i flogiau, gydag argymhelliad i gryfhau hyn ymhellach drwy sicrhau y caiff y cynnwys ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd a'i fod yn cyfeirio pobl yn glir at gymorth priodol.

Roedd cryfderau clir mewn perthynas â phreifatrwydd, urddas a chydsyniad ar sail gwybodaeth. Roedd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal yn rhithwir o leoliad preifat, gallai'r cleifion ddewis amseroedd apwyntiadau a oedd yn gweddu i'w hamgylchiadau ac roedd y prosesau cydsynio'n cael eu cefnogi gan bolisi ysgrifenedig a dogfennaeth glir. Roedd y broses o gyfathrebu â chleifion i'w gweld yn effeithiol, gyda gwybodaeth yn cael ei darparu am gwmpas a chyfyngiadau'r gwasanaeth, opsiynau triniaeth, costau a llwybrau uwchgyfeirio lle roedd anghenion yn cwmpo y tu allan i gylch gwaith y gwasanaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cryfhau dogfennaeth a phrosesau sicrwydd
- Sicrhau y caiff atgyfeiriadau eu cofnodi'n glir, eu monitro a'u holrhain
- Ffurfioli trefniadau ar gyfer ail farnau a gofal a rennir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Eu dull gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Cynnal preifatrwydd, urddas a chael cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Ystyried anghenion cyfathrebu a hygyrchedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Yn gyffredinol, roedd trefniadau cadarnhaol i ddarparu gofal iechyd o bell diogel ac effeithiol. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth o lywodraethu clir, polisïau a gweithdrefnau priodol yn ogystal â ffocws cryf ar gyfrinachedd, diogelwch gwybodaeth a diogelwch cleifion. Roedd y gwasanaeth yn gweithredu drwy systemau electronig diogel, lle nad oedd cofnodion papur yn cael eu cadw, mynediad cyfyngedig i wybodaeth am gleifion, dulliau cyfathrebu wedi'u hamgryptio ac ystyriaeth briodol o ofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Roedd y model ymgynghori o bell yn cael ei gefnogi gan brosesau wedi'u dogfennu i gadarnhau addasrwydd clinigol, gyda threfniadau ar waith i gyfeirio cleifion at wasanaethau amgen neu wyneb yn wyneb lle bo'n ofynnol.

Roedd elfennau cadarnhaol allweddol yn cynnwys dull rhagweithiol y gwasanaeth o gynnal gwybodaeth broffesiynol drwy gynadleddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), rhybuddion rheoliadol a chanllawiau perthnasol gan gyrff statudol a Cholegau Brenhinol. Roedd y trefniadau diogelu yn gadarnhaol hefyd, gyda pholisi cyfredol ac arweinydd diogelu hyfforddedig ar waith. Yn ogystal, dangosodd y gwasanaeth ymrwymiad i wella ansawdd drwy adborth gan gleifion, adolygu cwynion, dadansoddi achosion myfyriol a chymryd rhan mewn prosesau sicrwydd proffesiynol.

Ni nodwyd unrhyw bryderon arwyddocaol. Roedd rhai gweithgareddau archwilio clinigol wedi'u cynnal, ond byddai cynyddu gweithgareddau archwilio a datblygu prosesau presennol ymhellach yn cefnogi gwaith gwella ansawdd parhaus. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod y gwasanaeth yn parhau i fonitro canlyniadau, nodi dysgu a chynnal gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cryfhau'r rhaglen archwilio bresennol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dull rhagweithiol o gynnal gwybodaeth broffesiynol
- Sicrhau bod polisïau allweddol ar gael ac yn cael eu hadolygu'n barhaus
- Ymrwymiad i wella ansawdd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y gwasanaeth yn dangos llywodraethiant, trefniadau arweinyddiaeth a gweithlu cadarnhaol a chymesur ar y cyfan, sy'n briodol i'w faint a'i fodel gweithredu. Roedd atebolrwydd clir ar waith, gyda'r unig feddyg sy'n darparu'r gwasanaeth yn gweithredu fel yr Unigolyn Cofrestredig a'r Rheolwr Cofrestredig. Roedd y darparwr wedi datblygu ystod o bolisiâu perthnasol a oedd yn cwmpasu meysydd allweddol fel diogelu, cydsyniad, rheoli cofnodion, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac asesu a thrin. Roedd tystysgrif cofrestru AGIC ar gael ar wefan y gwasanaeth a chadarnhaodd y gwasanaeth fod trefniadau indemniad priodol ar waith.

Roedd strwythur llywodraethu clir, amrywiaeth o bolisiâu allweddol ar waith ac roedd y darparwr yn dangos ymrwymiad cryf i gynnal gwybodaeth broffesiynol drwy hyfforddiant, ymchwil, dysgu myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y broses gwyno wedi'i datblygu'n dda hefyd.

Ni nodwyd unrhyw bryderon arwyddocaol. Ar y cyfan, roedd y gwasanaeth i'w weld yn cael ei reoli'n dda, gyda threfniadau a oedd yn gymesur, yn ymatebol ac yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Strwythur llywodraethu clir
- Proses gwyno ddiffiniedig a dogfennaeth ategol
- Dull y darparwr o ddysgu a datblygu'n barhaus.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yn Resilience Health ar gyfer yr arolygiad ym mis Mehefin 2026. Cawsom gyfanswm o un ymateb gan glaf yn y lleoliad hwn. Dywedodd y claf:

"Mae Dr Rini wedi bod yn neilltuol. Yr hyn rwy'n ei werthfawrogi fwyaf yw ei bod hi'n cyfuno barn wirioneddol holistaidd ar iechyd gyda gwybodaeth go iawn, trylwredd a sylw at fanylder. Mae'n gwneud mwy na rhoi cyngor cyffredinol ar lesiant. Mae'n rhoi amser i ddeall y darlun yn llawn, yn uno'r dotiau ar draws symptomau, gwaith gwaed, ffordd o fyw a risgiau tymor hwy ac yna'n esbonio pethau mewn ffordd sy'n ystyriol, yn glir ac y gellir cymryd camau yn eu cylch."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd y gwasanaeth yn dangos ei fod yn cefnogi pobl i fyw bywydau iach drwy waith hybu iechyd wedi'i bersonoli yn ystod ymgynghoriadau, gyda chynghor wedi'i deilwra i gefndir diwylliannol yr unigolyn, gan gyflwyno anghenion o ran cyflwr ac anghenion iechyd penodol.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd hefyd ar gael drwy wefan y gwasanaeth, gan gynnwys postïadau blog, er mai'r dull sylfaenol oedd drwy drafod yn uniongyrchol â chleifion. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn cynnwys maeth, symud, lesiant emosiynol ac iechyd seicolegol, gyda chynghor yn cael ei addasu yn unol â'r gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnig a'r anghenion a nodwyd yn ystod ymgynghoriad. Disgrifiodd y gwasanaeth hefyd sut roedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau perthnasol a rhannu gwybodaeth pan fo'n briodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gryfhau hygyrchedd a chysondeb gwybodaeth hybu iechyd drwy sicrhau bod y wefan a chynnwys blogiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu diweddarau a'u bod yn cyfeirio pobl yn glir at ffynonellau cymorth pellach priodol.

Urddas a pharch

Roedd y clinig wedi'i drefnu mewn ffordd a oedd yn diogelu preifatrwydd ac urddas pob claf a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Dywedwyd wrthym fod ymgynghoriadau'n cael eu cynnal yn rhithwir yn unig ac yn cael eu darparu drwy gais ar-lein. Roedd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal o ystafell breifat ym mhrif breswylfa'r meddyg. Dywedwyd wrthym fod yr ystafell yn rhoi preifatrwydd llwyr lle nad oedd modd i bobl

eraill ar y safle glywed sgysiau cyfrinachol. Dywedwyd wrthym fod yr unig ddrws i'r ystafell yn aros ar gau yn ystod ymgynghoriadau er mwyn osgoi unrhyw darfu.

Roedd y cleifion yn cael dewis amser wrth ystyried trefnu apwyntiad. Roedd hyn yn galluogi'r cleifion i drefnu apwyntiad lle y gallent gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn breifat ar adeg sy'n gyfleus iddynt. Nid oedd angen hebryngwyr gan fod pob apwyntiad yn rhithwir.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd prosesau ar waith ar gyfer cael cydsyniad ar sail gwybodaeth. Roedd cleifion yn cael gwybodaeth briodol a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Roedd y trefniadau i gael cydsyniad ar sail gwybodaeth yn cael eu cefnogi gan bolisi cydsynio ysgrifenedig a adolygwyd ym mis Ebrill 2026. Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am natur y gwasanaeth, gan gynnwys cyfyngiadau'r model cynghori o bell, cyn i waith asesu, archwilio neu argymhellion clinigol gael ei wneud. Roedd cydsyniad yn cael ei ddogfennu yng nghofnod y claf ac roedd yn cynnwys manylion y wybodaeth a ddarparwyd, unrhyw gwestiynau a godwyd gan gleifion a'u cytundeb i fwrw ymlaen.

Roedd trefniadau ar waith i gefnogi cyfathrebu effeithiol â chleifion. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn rhoi gwybodaeth am driniaethau arfaethedig mewn ffordd glir a dealladwy, a oedd yn cynnwys diben y driniaeth, y risgiau posibl, y manteision a'r dewisiadau eraill oedd ar gael. Roedd hyn yn cynnwys cydnabod pwysigrwydd diwallu anghenion cyfathrebu unigol a defnyddio gwybodaeth ysgrifenedig a chymhorthion gweledol i gefnogi dealltwriaeth y cleifion.

Roedd cyfrinachedd cleifion a llywodraethu gwybodaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gydsynio. Roedd cleifion yn cael gwybod am natur ddiogel llwyfannau ymgynghori rhithwir ac roeddent yn cydsynio iddynt cyn i'r technolegau hyn gael eu defnyddio. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod cleifion yn deall sut byddai eu gwybodaeth yn cael ei rheoli a'i rhannu yn ystod ymgynghoriadau o bell.

Roedd y gwasanaeth yn gweithredu o fewn maes ymarfer wedi'i ddiffinio'n glir ac roedd trefniadau uwchgyfeirio priodol ar waith. Lle nodwyd pryderon clinigol a oedd yn cwmpo y tu allan i gylch gwaith y gwasanaeth neu lle roedd angen asesiad brys, roedd cleifion yn cael eu cyfeirio at eu meddyg teulu, gwasanaethau arbenigol neu ofal brys fel y bo'n briodol. Roedd llwybrau uwchgyfeirio clir yn cael eu cyfathrebu i'r cleifion o'r cychwyn cyntaf.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth allweddol i gleifion, gan gynnwys y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, yn cael eu hanfon at gleifion drwy'r system glinigol. Roedd y

gwasanaeth yn asesu dewis iaith ac anghenion cyfathrebu pob claf yn ystod y cyswllt cychwynnol, gan gofnodi'r dewisiadau hyn a'u diweddarau lle bo'n ofynnol. Yn Saesneg roedd gwybodaeth yn cael ei darparu'n bennaf, ond nododd y gwasanaeth y byddai'n cymryd camau rhesymol i chwilio am gymorth cyfieithu neu ddehongli lle roedd angen, gan gynnwys ar gyfer cleifion a oedd yn dymuno cael gwybodaeth neu gyfathrebiadau yn Gymraeg.

Disgrifiodd y darparwr y trefniadau ar gyfer teilwra gwybodaeth i anghenion unigol, gan gynnwys nodiadau ymgynghoriadau, y canllaw i gleifion, gwybodaeth ddilynol a chyfarwyddiadau ar ôl triniaethau. Roedd opsiynau trin a'r camau nesaf yn cael eu dogfennu a'u rhannu â chleifion. Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau a gwasanaeth yn cael eu darparu adeg yr ymholiad.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y dystiolaeth yr edrychwyd arni yn dangos bod y gwasanaeth yn ymdrin ag atgyfeiriadau fesul achos ac yn mynd ati i gyfathrebu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Lle bo'n ofynnol, gellir ysgrifennu atgyfeiriadau neu lythyrau at feddyg teulu'r claf a rhoddwyd gwybod i'r cleifion nad oedd clinigydd y gwasanaeth yn gweithredu fel meddyg teulu drostynt. Roedd yn ymddangos bod y gwasanaeth yn cefnogi'r cleifion drwy gynnig cyfathrebu â gwasanaethau gofal sylfaenol ar eu rhan, yn hytrach na dim ond rhoi cyfarwyddyd iddynt wneud eu trefniadau eu hunain. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai manylion cliriach yn y dystiolaeth a gofnodwyd ynghylch sut roedd atgyfeiriadau'n cael eu holrhain a'u dogfennu i sicrhau parhad gofal.

Roedd y trefniadau ar gyfer ail farn a gofal a rennir i'w gweld yn anffurfiol ac yn seiliedig ar drafodaethau proffesiynol â rhwydweithiau cymheiriaid, gan gynnwys trafodaethau dienw â chymheiriaid clinigol ehangach. Roedd hyn yn cynnig rhywfaint o dystiolaeth bod y clinigydd yn ceisio mewnbwn proffesiynol lle roedd angen, yn enwedig ar gyfer achosion mwy cymhleth neu amlhaenog. Fodd bynnag, nid oedd y broses a ddisgrifiwyd yn dangos llwybr ffurfiol o gael ail farn, penderfyniadau gofal a rennir, neu'r rhesymeg dros y cyngor clinigol a roddwyd a'u cofnodi. Roedd hyn yn hynod berthnasol lle roedd anghenion cymhleth neu feysydd gofal arbenigol yn y cwestiwn.

Roedd anghenion iechyd a llesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ymgynghoriadau ac adolygiadau seiliedig ar holiadur, gydag adolygiadau'n cael eu cynnwys yn y strwythur ffioedd cychwynnol. Nododd y gwasanaeth fod gofal a thriniaeth yn cael eu teilwra i anghenion cleifion unigol, gan roi blaenoriaeth i les a diogelwch cleifion. Roedd cyfeiriad at arferion seiliedig ar dystiolaeth, darllen proffesiynol, profiad clinigol y GIG ac ymwybyddiaeth o risgiau posibl. Roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei darparu i gleifion yn cynnwys cyfathrebiadau ysgrifenedig manwl yn seiliedig ar yr wyth piler iechyd a byddai'r gwasanaeth yn defnyddio cymhorthion gweledol, deunyddiau ysgrifenedig ac adnoddau eraill i gefnogi pobl ag anghenion synhwyrdd neu wybyddol.

Roedd y dystiolaeth yn awgrymu dull a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ond byddai rhagor o fanylion yn cryfhau sicrwydd o ran sut byddai cynlluniau wedi'u teilwra at yr unigolyn yn cael eu datblygu, eu hadolygu a'u cofnodi'n gyson.

Roedd y gwasanaeth yn gweithredu o fewn cwrdd cyngori diffiniedig ac yn dangos bod cleifion yn cael eu cyfeirio at eu meddyg teulu yn y GIG, gwasanaethau arbenigol neu wasanaethau brys lle roedd pryderon yn cwympo y tu allan i'r cwrdd hwn neu angen asesiad brys. Roedd cleifion yn cael eu cynghori ynghylch y llwybrau uwchgyfeirio ar y cychwyn. Lle roedd canlyniadau annormal neu amlhaenog yn codi, gall y clinigydd ofyn am fewnbwn adolygu cymheiriaid os oedd angen. Er bod hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd fod proses uwchgyfeirio'n cael ei hystyried, nid oedd y dystiolaeth yn dangos yn llawn weithdrefn glir, wedi'i dogfennu i esbonio canlyniadau annormal, gweithredu arnynt a'u rheoli, gan gynnwys sut roedd cleifion yn cael gwybod, sut roedd cyngor yn cael ei gofnodi a sut roedd proses olrhain yn cael ei sicrhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- **Dogfennu sut caiff atgyfeiriadau at feddygon teulu, gwasanaethau arbenigol neu ymchwiliadau diagnostig eu gwneud, eu cofnodi, eu monitro a'u holrhain**
- **Ffurfioli a dogfennu trefniadau ar gyfer cael ail farn a gofal a rennir, gan gynnwys cofnodi cyngor gan gymheiriaid, penderfyniadau a'r rhesymeg dros gyngor clinigol yng nghofnod y claf**
- **Cryfhau ei weithdrefn ar gyfer rheoli canlyniadau annormal, gan gynnwys cyfathrebu â chleifion, uwchgyfeirio, pryderon brys a chofnodi camau gweithredu ac olrhain.**

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y gwasanaeth yn dangos dull cadarnhaol o hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Roedd dystiolaeth fod polisiâu cynhwysfawr a chyfredol ar waith, gan gynnwys Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Datganiad o Ddiben, a oedd yn cyfeirnod gofynion deddfwriaethol allweddol megis Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Disgrifiodd y gwasanaeth ymrwymiad i drin pobl yn deg a heb wahaniaethu ac roedd ystyriaeth wedi'i rhoi i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i bobl o amrywiaeth o gefndiroedd ac i bobl â lefelau llythrennedd ieuchyd gwahanol. Roedd sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar gael, cymorth i bobl ag anghenion penodol a defnyddio model darparu rhithwir o gymorth i gefnogi hygyrchedd, yn enwedig i'r bobl a all fod yn profi rhwystrau i fynd i apwyntiadau mewn person. Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod anghenion diwylliannol yn cael eu hystyried a bod y defnydd o ragenwau'n cael eu hannog fel rhan o osod tôn gynhwysol.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dangosodd y gwasanaeth ddull cadarnhaol o gasglu a defnyddio barn y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Roedd adborth yn cael ei gasglu drwy ffurflen adborth, gyda chymorth sgysiau cyfnodol â chleifion, a oedd yn rhoi cyfleoedd i bobl rannu eu profiadau a chodi unrhyw bryderon. Dywedodd y gwasanaeth fod adborth gan gleifion yn cael ei ystyried yn rheolaidd a'i ddefnyddio i lywio gwelliannau lle roedd angen, gan gefnogi diwylliant o welliannau parhaus ac ymatebolrwydd i brofiadau pobl.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y gwasanaeth fecanweithiau ar waith i bobl roi adborth, gan gynnwys adborth mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol a bod yr adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gefnogi gwelliannau parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig rannu crynodeb o'r adborth a ddaeth i law a'r camau a gymerwyd, drwy'r canllaw i gleifion neu drwy fformat hygyrch arall, er mwyn dangos sut mae adborth yn cefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae'r trefniadau'n dangos bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu cofnodion a chynnal diogelwch y safle. Roedd y trefniadau sydd ar waith ar y safle yn dangos dull cadarnhaol o gynnal amgylchedd diogel ac addas at y diben. Roedd cofnodion meddygol yn cael eu storio'n electronig ar system wedi'i diogelu gan gyfrinair a oedd yn cael ei gwirio ddwy ffordd, a oedd yn defnyddio system glinigol a oedd yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) gan ddarparu mynediad a reolir i gleientiaid. Roedd absenoldeb cofnodion papur, defnydd o ystafell dan glo, mynediad diogel drwy'r drws ffrynt a threfniadau gweithio seiliedig ar liniadur yn cefnogi proses dda o lywodraethu gwybodaeth ac yn lleihau'r risg o fynediad heb awdurdod i wybodaeth gyfrinachol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau i gynnal canllawiau clinigol cyfredol. Roedd y gwasanaeth yn cael ei weithredu gan un clinigydd, y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol. Roedd yn llwyddo i gynnal safonau proffesiynol cyfredol ac i ddiweddarau canllawiau clinigol drwy fynychu cynadleddau a gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd y clinigydd hefyd wedi cofrestru i dderbyn bwletinâu diogelwch yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, gan sicrhau bod rhybuddion diogelwch yn dod i law yn brydlon ac y gellid gweithredu arnynt. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod y gwasanaeth wedi cyflawni rhywfaint o weithgarwch archwilio clinigol.

Dylai'r rheolwr cofrestredig wella'r rhaglen archwilio gyfredol drwy gynyddu gweithgareddau archwilio a chryfhau'r prosesau presennol i gefnogi gwelliannau ansawdd parhaus.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Er nad oedd unrhyw gleifion yn cael eu hasesu na'u trin ar y safle, dywedwyd wrthym fod yr ystafell yn daclus ac roedd cynllun yr ystafell yn golygu bod modd ei glanhau'n effeithiol.

Roedd y gwasanaeth rhithwir yn lleihau'r risg o heintiau cysylltiedig â gofal iechyd yn sylweddol. Lle roedd angen archwiliadau corfforol, dywedodd y gwasanaeth y byddai protocolau golchi dwylo a glanhau cyfarpar yn cael eu dilyn. Roedd cyfarpar diogelu personol priodol hefyd ar gael i'r staff ac roeddent wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar ddefnyddio'r cyfarpar yn ddiogel, a oedd yn cynnwys gwisgo a diosg.

Rhoddodd y trefniadau hyn sicrwydd eu bod yn deall mesurau atal a rheoli heintiau ac yn eu defnyddio pan oedd angen.

Rheoli meddyginiaethau

Darparodd y gwasanaeth sicrwydd clir nad oedd meddyginiaethau'n cael eu defnyddio yn y gwasanaeth ac felly nid oedd trefniadau ar gyfer archebu, caffael, storio, rheoli, cyflenwi, presgripsiynu, rhoi a dosbarthu meddyginiaethau a chynnal cofnodion o roi meddyginiaethau yn berthnasol.

Roedd gan y gwasanaeth ddull priodol o fonitro gwybodaeth berthnasol am ddiogelwch, gan gynnwys bwletinâu cyngor a rhybuddion a ddosberthir gan gyrff rheoleiddio, proffesiynol a statudol fel yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a Cholegau Brenhinol perthnasol. Dangosodd hyn ymrwymiad cadarnhaol i gynnal ymwybyddiaeth o faterion diogelwch cleifion sy'n berthnasol i'r triniaethau a ddarperir gan y gwasanaeth.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd y gwasanaeth yn dangos trefniadau cadarnhaol i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth. Roedd polisi a gweithdrefn diogelu ar waith ac roedd yn gyfredol. Roedd y Rheolwr Cofrestredig wedi cael hyfforddiant llawn fel yr arweinydd diogelu. Ni chafwyd tystiolaeth o honiadau o gam-drin yn y gwasanaeth. Os nodwyd pryderon diogelu, nododd y darparwr y byddent yn dilyn polisi'r gwasanaeth ac yn atgyfeirio pryderon at dîm diogelu'r awdurdod lleol perthnasol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, dangosodd y gwasanaeth bod ganddo drefniadau cadarnhaol i gefnogi triniaeth a gofal diogel ac effeithiol. Y Rheolwr Cyfrifol oedd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu polisiâu a gweithdrefnau, eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn unol â'r rheoliadau. Roedd y polisiâu'n cwmpasu meysydd allweddol fel diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth, cydsyniad, cyfleusterau a chyfarpar, rheoli cofnodion, asesu, diagnosis a thriniaeth.

Roedd y gwasanaeth hefyd yn dangos bod modd cael gafael ar ganllawiau proffesiynol perthnasol, rhybuddion a diweddariadau rheoliadol drwy lwybrau priodol, gan gynnwys y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, Colegau Brenhinol ac AGIC. Roedd y rhain yn cael eu cynnal mewn storfa ddigidol ddiogel i gefnogi cydymffurfiaeth barhaus ac arfer da.

Roedd tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) drwy bresenoldeb mewn cynadleddau, gweminarau, cyfarfodydd proffesiynol a thrafodaethau ag arbenigwyr. Cymerodd y Rheolwr Cyfrifol ran mewn arfarniad blynyddol hefyd yn unol â gofynion y

Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r safonau ail-ddilysu ac roedd wedi nodi adolygydd cymheiriaid fel cyfle pellach i gefnogi arfer myfyriol a sicrwydd proffesiynol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y dystiolaeth yr edrychwyd arni'n dangos bod y gwasanaeth yn ymrwymo i gynnal gwasanaethau meddygaeth ffordd o fyw diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda threfniadau llywodraethu clir a ffocws ar welliannau parhaus.

Dangosodd y gwasanaeth ddull cadarnhaol a rhagweithiol o asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau wedi'u diffinio'n glir ar waith, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheoli risgiau, gofal cleifion, cydsyniad, rheoli cofnodion, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu arfer gorau. Roedd tystiolaeth o sicrhau ansawdd parhaus drwy asesiadau rheolaidd, adolygiadau clinigol a dadansoddi achosion myfyriol, gyda chymorth prosesau ailddilysu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu'n weithredol a'i ddefnyddio i lywio gwaith datblygu gwasanaethau ac roedd cwynion yn cael eu dogfennu a'u hymchwilio iddynt er mwyn nodi cyfleoedd dysgu a gwella. Roedd y gwasanaeth hefyd yn hyrwyddo dysgu ar y cyd drwy wybodaeth hygyrch, gan gynnwys blogiau a diweddariadau proffesiynol, a oedd yn cefnogi diwylliant o welliant parhaus. Roedd gan y gwasanaeth drefniadau priodol ar waith i gyflwyno ffurflenni blynyddol i AGIC a chadarnhaodd y byddai'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau o bwys a digwyddiadau y dylid rhoi gwybod amdanynt yn unol â'r rheoliadau. Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau y dylid rhoi gwybod amdanynt yn ystod y deuddeg mis blaenorol.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod y gwasanaeth wedi ystyried rheoli data a gwybodaeth pobl yn ystod ymgynghoriadau o bell mewn ffordd ddiogel. Roedd y gwasanaeth yn defnyddio llwyfan ymgynghori drwy fideo cydnabyddedig ac yn disgrifio'r mesurau bwriadedig i ddiogelu cyfrinachedd, gan gynnwys cynnal ymgynghoriadau o leoliad preifat, gofyn i gleifion gadarnhau eu bod hefyd mewn amgylchedd preifat a chyfyngu mynediad i gofnodion cleifion i'r Rheolwr Cofrestredig yn unig.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn dangos ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau proffesiynol perthnasol, gan gynnwys canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfrinachedd, ymgynghoriadau o bell a rhyngweithiadau parchus â chleifion. Yn gadarnhaol, gwnaeth y darparwr ddisgrifio trefniadau ar gyfer cyfathrebu diogel, a oedd yn cynnwys negeseuon e-bost wedi'u hamgryptio ar gyfer rhyngweithiadau rhwng y cleifion a'r meddyg ac i gyfnewid dogfennau. Gwnaethant nodi bod gweithdrefnau cyfrinachedd yn cael eu

hadolygu i adlewyrchu newidiadau mewn technoleg, risgiau sy'n dod i'r amlwg a gofynion rheoliadol.

Ymgynghoriad o bell oedd yr unig ddull ymgynghori oedd yn cael ei gynnig, roedd gan y gwasanaeth broses glir ac wedi'i dogfennu i bennu pryd roedd ymgynghoriad o bell yn briodol yn glinigol a phryd y gall fod angen cyfeirio claf at wasanaethau amgen neu ofal wyneb yn wyneb. Nid oedd unrhyw ddelweddau neu recordiadau yn cael eu gwneud yn ystod ymgynghoriadau ar-lein, a oedd yn lleihau'r risgiau cysylltiedig â storio, cydsynio a rhannu gwybodaeth weledol.

Rheoli cofnodion

Roedd y gwasanaeth yn dangos dull cadarnhaol o reoli cofnodion y cleifion, gyda gwybodaeth am gleifion a nodiadau ymgynghoriadau'n cael eu cynnal yn ddiogel drwy'r system cofnodion iechyd electronig. Roedd cofnodion a oedd yn cael eu llunio o ymgynghoriadau'n cael eu storio'n electronig, heb unrhyw gofnodion papur yn cael eu cadw. Roedd y defnydd o system glinigol ddiogel yn cefnogi cyfrinachedd ac yn cydfynd â gofynion GDPR y DU a diogelu data. Roedd cyfyngiadau priodol mewn perthynas â mynediad i gofnodion gan mai dim ond y Rheolwr Cofrestredig oedd yn gallu edrych arnynt, a oedd yn lleihau'r risg o fynediad heb awdurdod. Gwnaeth y gwasanaeth hefyd ddisgrifio'r defnydd o amgryptio a gweinyddion diogel, gan gefnogi'r broses o storio a throsglwyddo gwybodaeth am gleifion yn ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw yn unol â gofynion rheoliadol perthnasol, gyda chofnodion yn cael eu cadw am wyth mlynedd o leiaf ac am gyfnod hwy lle roedd angen, yn dibynnu ar oedran y claf, ei hanes clinigol neu amgylchiadau unigol. Roedd hyn yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd proses briodol o gadw cofnodion a gwaredu cofnodion yn ddiogel pan nad oedd eu hangen mwyach. Ar y cyfan, roedd y trefniadau a ddisgrifiwyd yn rhoi sicrwydd bod y cofnodion yn gywir, yn gyfrinachol ac yn cael eu rheoli mewn ffordd a oedd yn cefnogi gofal diogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain gan un meddyg a oedd yn gweithredu fel yr Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig, ac roedd yn amlwg yn atebol am bob penderfyniad. Er yn gweithio'n annibynnol, roedd cymheiriaid ar gael i gadarnhau bod y cynlluniau trin yn gwneud synnwyr a bod atebolrwydd proffesiynol allanol drwy'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac AGIC.

Roedd y gwasanaeth wedi llunio ystod o bolisiâu ysgrifenedig a oedd yn cwmpasu meysydd allweddol fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu, cydsyniad gan gleifion, cyfleusterau a chyfarpar, rheoli cofnodion, ac asesu, gwneud diagnosis a thrin. Roedd y rhain yn destun adolygiad parhaus i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol, yn hygyrch a'u bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod tystysgrif cofrestru AGIC ar gael ar wefan y gwasanaeth a bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â manylion ac amodau'r cofrestriad. Cadarnhaodd y gwasanaeth hefyd fod trefniadau indemniad priodol ar waith, a oedd yn rhoi sicrwydd bod gan y gwasanaeth yswiriant digonol. Roedd hyn yn cefnogi barn gadarnhaol o'r trefniadau llywodraethu a oedd ar waith ac yn awgrymu bod y gwasanaeth wedi cymryd camau i fodloni ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag arweinyddiaeth, cofrestriad a gofynion o ran yswiriant.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Dangosodd y gwasanaeth brosesau effeithiol ar gyfer rheoli pryderon a chwynion. Sicrhawyd bod gwybodaeth am y weithdrefn gwyno ar gael i gleifion drwy'r canllaw i gleifion, datganiad o ddiben a gwnaed y cleifion yn ymwybodol o hyn hefyd yn ystod ymgynghoriadau. Roedd polisi cwyno cyfredol ar gael a oedd yn cynnwys y wybodaeth allweddol oedd yn ddisgwyledig, gan gynnwys sut i godi cwyn, amserlenni perthnasol, llwybrau uwchgyfeirio a manylion cyswllt ar gyfer cyrff allanol priodol. Roedd trefniadau clir ar waith i gydnabod pryderon ysgrifenedig o fewn tri diwrnod gwaith ac i ddarparu ymateb ysgrifenedig sylweddol o fewn ugain diwrnod gwaith, gyda chleifion yn cael gwybod os oedd angen rhagor o amser.

Dangosodd y gwasanaeth hefyd ddull cadarnhaol o ddysgu a gwella, gyda chwynion ac adborth yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad y gwasanaeth a lleihau'r risg y bydd yn codi eto.

Mewn perthynas â digwyddiadau hysbysadwy, nododd y gwasanaeth fod hysbysiadau i AGIC yn cael eu cyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflenni sydd ar gael ar wefan AGIC.

Dywedodd y gwasanaeth na fu unrhyw ddigwyddiadau y dylid rhoi gwybod amdanynt yn ystod y deuddeg mis blaenorol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cadarnhaodd y Rheolwr Cofrestredig nad oedd cynlluniau i recriwtio ar hyn o bryd, a oedd yn golygu nad oedd sawl agwedd ar recriwtio a threfniadau addasrwydd parhaus yn berthnasol adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, gwnaethant ddangos dealltwriaeth dda o'r broses recriwtio ddisgwyliedig, a phwysigrwydd cwblhau gwiriadau cyn cyflogi priodol i gefnogi iechyd, diogelwch a lles y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Dangosodd y darparwr hefyd, er nad oedd angen polisi recriwtio ar hyn o bryd, y byddai un yn cael ei lunio pe bai angen ymgymryd â gweithgarwch recriwtio. Dangosodd hyn ddull ymatebol ac ymwybyddiaeth o'r angen i gadarnhau trefniadau llywodraethu priodol pe bai'r trefniadau staffio yn newid yn y dyfodol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd trefniadau priodol ar waith mewn perthynas â chymorth staff a oedd yn gymesur i faint a natur y gwasanaeth. Y Rheolwr Cofrestredig oedd yr unig aelod o staff ac felly nid oedd y trefniadau yn ymwneud â sefydlu staff, lefelau staffio, goruchwylio, cyfarfodydd staff a chodi pryderon yn gymwys yn y ffordd arferol.

Gwelsom dystiolaeth gadarnhaol fod y darparwr wedi cynnal ei gwybodaeth broffesiynol, ei sgiliau a dysgu drwy hyfforddiant parhaus, ymchwil, cynadleddau, gweminarau, gweithgareddau ysgrifennu a dysgu myfyriol, gan gynnwys defnyddio llwyfannau dysgu proffesiynol. Cwblhawyd hyfforddiant gorfodol yn bennaf drwy'r Cofnodion Staff Electronig fel rhan o gyflogaeth y darparwr â'r GIG ac roedd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro drwy'r system hon.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Resilience Health

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Resilience Health

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd deunydd hybu iechyd cyfyngedig ar gael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gryfhau hygyrchedd a chysondeb gwybodaeth hybu iechyd drwy sicrhau bod y wefan a chynnwys blogiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu diweddaru a'u bod yn cyfeirio pobl yn glir at ffynonellau cymorth pellach priodol.		Mae proses adolygu cynnwys chwarterol wedi'i dogfennu wedi'i chyflwyno ar gyfer yr holl ddeunydd hybu iechyd ar y wefan a'r blog. Caiff pob tudalen ei gwirio/post ei wirio yn erbyn cofnodlyfr adolygu gan gofnodi'r canlynol: dyddiad adolygu, a yw'r cynnwys yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol, ac a yw'r broses o gyfeirio at gymorth allanol perthnasol (e.e. GIG 111, gwasanaethau meddyg teulu, elusennau/cyrff cymorth cenedlaethol perthnasol yn	Rheolwr Cofrestredig	Cwblhawyd yr adolygiad llawn a'r diweddariad cyfeirio cyntaf erbyn 15 Awst 2026. Bydd adolygiadau'n cael eu hailadrodd yn chwarterol (Tachwedd 2026, Chwefror 2027, ac yn y blaen).

				dibynnu ar y pwnc) yn bresennol ac yn gyfredol. Lle mae proses gyfeirio ar goll, caiff ei hychwanegu at y pwynt adolygu. Tystiolaeth i'w darparu: y cofnodlyfr adolygu cynnwys (gyda dyddiad wrth yr adolygiad cyntaf) a sgrinluniau o dudalennau gwe/blog wedi'u diweddarau yn dangos proses gyfeirio.		
2.	Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o fewn cwmpas cynghori diffiniedig ac yn dangos bod cleifion yn cael eu cyfeirio at eu meddyg teulu yn y GIG, gwasanaethau arbenigol neu wasanaethau brys lle mae pryderon yn cwympo y tu allan i'r cwmpas hwn neu angen asesiad brys. Caiff cleifion eu cynghori ynghylch y llwybrau uwchgyfeirio ar y cychwyn. Lle bydd	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: • Dogfennu sut caiff atgyfeiriadau at feddygon teulu, gwasanaethau arbenigol neu ymchwiliadau diagnostig eu gwneud, eu cofnodi, eu monitro a'u holrhain		Mae Cofnodlyfr Atgyfeiriadau wedi'i gyflwyno yn y system glinigol, gan gofnodi'r canlynol ar gyfer pob atgyfeiriad: dyddiad, derbynnydd (meddyg teulu/arbenigwr/ymchwiliad), rheswm, dull cyfathrebu, a'r dyddiad y cafodd yr atgyfeiriad ei gadarnhau /derbyn/gweithredu arno. Caiff hwn ei wirio ym mhob ymgynghoriad dilynol perthnasol. Mae Protocol Ail Farn a Gofal a Rennir ysgrifenedig wedi'i	Rheolwr Cofrestredig	Cafodd y tair dogfen eu drafftio ac ar waith erbyn 22 Awst 2026. Adolygwyd y defnydd cyntaf o bob un fel rhan o archwiliad clinigol Ch3 2026, sy'n ddisgwyliedig erbyn 30 Medi 2026.

	canlyniadau annormal neu amlhaenog yn codi, gall y clinigydd ofyn am fewnbwn adolygu cymheiriaid os bydd angen. Er bod hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd fod proses uwchgyfeirio'n cael ei hystyried, nid oedd y dystiolaeth yn dangos gweithdrefn glir, wedi'i dogfennu i esbonio canlyniadau annormal yn llawn, gweithredu arnynt a'u rheoli, gan gynnwys sut caiff cleifion wybod, sut caiff cyngor ei gofnodi a sut caiff proses olrhain ei sicrhau.	• Ffurfioli a dogfennu trefniadau ar gyfer cael ail farn a gofal a rennir, gan gynnwys cofnodi cyngor gan gymheiriaid, penderfyniadau a'r rhesymeg dros gyngor clinigol yng nghofnod y claf • Cryfhau ei weithdrefn ar gyfer rheoli canlyniadau annormal, gan gynnwys cyfathrebu â chleifion, uwchgyfeirio, pryderon brys a chofnodi camau gweithredu ac olrhain.		lunio, sy'n nodi pryd bydd mewnbwn cymheiriaid yn cael ei geisio, y rhwydwaith cymheiriaid/trafodaeth broffesiynol dienw'n cael ei defnyddio/ei ddefnyddio, a gofyniad bod dyddiad, cynnwys a chanlyniad y drafodaeth honno (gan gynnwys y rhesymeg dros unrhyw gyngor clinigol deilliannol) yn cael ei gofnodi yng nghofnod clinigol y claf. Mae Gweithdrefn Rheoli Canlyniadau Annormal ysgrifenedig wedi'i llunio, sy'n nodi sut y caiff canlyniad annormal ei nodi, yr amserlen ar gyfer rhoi gwybod i'r claf (yr un diwrnod ar gyfer canlyniadau brys/risg uchel; o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar gyfer canlyniadau annormal arferol), sut cofnodir cyngor a roddir, a sut yr eir ati i uwchgyfeirio claf at feddyg teulu, arbenigwr neu wasanaeth brys ac olrhain hynny.		
--	--	--	--	--	--	--

				Tystiolaeth i'w darparu: copïau o dempled y cofnodlyfr atgyfeiriadau (gyda chofnodion enghreifftiol), y Protocol Ail Farn a Gofal a Rennir, a'r Weithdrefn Rheoli Canlyniadau Annormal, a chadarnhad bod y rhain wedi'u defnyddio ar lefel ymarferol.		
3.	Roedd mecanweithiau ar waith i bobl roi adborth, a defnyddir yr adborth hwnnw i gefnogi gwelliannau parhaus wrth ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, ni chaiff ei ddangos yn unrhyw le.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig rannu crynodeb o'r adborth a ddaeth i law a'r camau a gymerwyd, drwy'r canllaw i gleifion neu drwy fformat hygyrch arall, er mwyn dangos sut mae adborth yn cefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth.		Mae adran newydd wedi'i hychwanegu at y Canllaw i Gleifion sy'n crynhoi'r themâu sy'n codi o'r adborth gan gleifion a ddaeth i law a'r newidiadau penodol a wnaed i'r gwasanaeth o ganlyniad i hynny. Bydd yr adran newydd hon yn cael ei diwedddaru ym mhob adolygiad o'r Canllaw i Gleifion, ac ar ôl derbyn unrhyw adborth newydd gyda thema amlwg, er mwyn iddo barhau i fod yn gyfredol. Tystiolaeth i'w darparu: y Canllaw i Gleifion wedi'i ddiwedddaru sy'n dangos yr	Rheolwr Cofrestredig	Ychwanegwyd yr adran adborth cryno newydd at y Canllaw i Gleifion erbyn 15 Awst 2026, a bydd yn cael ei hadolygu ochr yn ochr â phob adolygiad o'r Canllaw i Gleifion yn y dyfodol.

				adran adborth cryno newydd, dyddiedig.		
4.	Roedd tystiolaeth o rywfaint o weithgarwch archwilio ac roedd meysydd i'w gwella yn cael eu nodi o'r gweithgarwch hwnnw.	Dylai'r rheolwr cofrestredig wella'r rhaglen archwilio gyfredol drwy gynyddu gweithgareddau archwilio a chryfhau'r prosesau presennol i gefnogi gwelliannau ansawdd parhaus.		Mae Proses Archwilio Clinigol ffurfiol wedi'i rhoi ar waith (Mehefin 2026), gan gyflwyno sbardun archwilio chwarterol (cwblheir archwiliad ffurfiol pryd bynnag y caiff dau glaf neu fwy eu gweld yn ystod chwarter calendr), meysydd archwilio diffiniedig (cydsyniad, cofnodion, asesu ac argymhellion, atgyfeiriadau, adborth, cwynion/digwyddiadau, diogelu a chydymffurfio â pholisïau), a Chofnodlyfr Archwilio Chwarterol. Lle na chaiff y trothwy o ran niferoedd chwarterol ei fodloni, caiff hyn ei gofnodi a chaiff adolygiad myfyriol ei gwblhau yn hytrach drwy gylch arfarnu blynyddol y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a gaiff ei	Rheolwr Cofrestredig	Rhoddwyd y broses ar waith ym mis Mehefin 2026 (eisoedd ar waith). Cwblhawyd cofnod Ch2 2026 erbyn 31 Gorffennaf 2026. Cwblheir cofnod Ch3 erbyn 30 Medi 2026, Ch4 erbyn 31 Rhagfyr 2026, a'r Crynodeb Adolygiad Blynyddol cyntaf erbyn 31 Ionawr 2027.

				adolygu'n allanol gan y swyddog cyfrifol. Mae gweddill cofnodlyfr Ch2 2026 wrthi'n cael ei gwblhau, a bydd y cofnodlyfr yn parhau i gael ei gwblhau bob chwarter, gyda Chrynodeb Adolygiad Blynnyddol cyntaf yn cael ei gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn. Tystiolaeth i'w darparu: y ddogfen Proses Archwilio Clinigol a'r Cofnodlyfr Archwilio Chwarterol wedi'u cwblhau (cofnodion Ch1–Ch4 2026).		
--	--	--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Swydd: Rheolwr Cofrestredig / Unigolyn Cofrestredig

Dyddiad: 24/07/26